YN WYNEB HAUL LLYGAD GOLEUNI

# ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD YR ORSEDD 2020

Yn sgil y penderfyniad trist – ond cwbl angenrheidiol – i ohirio Eisteddfod Ceredigion 2020 oherwydd pandemig Covid-19, bu'n rhaid i ni hefyd ohirio'r rhan fwyaf o weithgareddau'r Orsedd am y tro, gan gynnwys Seremoni Cyhoeddi Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd. Edrychwn ymlaen at gael ailgydio yn ein gweithgareddau arferol pan fydd yr argyfwng presennol drosodd.

**CYNHELIR CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL YR ORSEDD**
**dros y llwyfan digidol Zoom am 10.00, ddydd Iau 6 Awst 2020**

# CYFARFODYDD BWRDD YR ORSEDD 2019–20

Oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd ar bawb yn sgil Covid-19, unwaith yn unig y bu modd i Fwrdd yr Orsedd gyfarfod yn uniongyrchol yn ystod y flwyddyn, sef ar 19 Hydref 2019, yn Aberystwyth. Cyflawnwyd yr holl waith angenrheidiol arall dros gyfryngau digidol a thrwy'r post.

Ymhlith y materion a fu dan sylw'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn oedd:

- Cofio'r Cyn-Archdderwydd Robyn Llŷn, a fu farw ar 12 Awst 2010 (gweler t. 3).
- Yr ymateb i'r amrywiol newidiadau i'n seremonïau a gyflwynwyd yn 2019.
- Rhai mân newidiadau pellach, gan gynnwys gwahodd llefarydd i gyflwyno darn o lenyddiaeth 'leol' yn Seremoni'r Cyhoeddi ac yn y Cylch ar faes yr Eisteddfod.
- Enwau'r rhai i'w gwahodd i gymryd rhan yn seremonïau Eisteddfod Ceredigion.
- Goblygiadau'r penderfyniad i ohirio Eisteddfod Ceredigion tan 2021 ar holl weithgareddau'r Orsedd, gan gynnwys tymor yr Archdderwydd ac aelodau'r Bwrdd a'i baneli (gweler yr argymhelliad isod).
- Enwau'r rhai i'w hanrhydeddu yn Eisteddfod Ceredigion, a dymunoldeb cyhoeddi'r enwau hynny yn ystod haf 2020.
- Ymgyrch 'cysylltiadau tramor' yr Archdderwydd (gweler t. 9).

## Swyddogion yr Orsedd ar gyfer 2019–20

**Archdderwydd:** Y Prifardd Myrddin ap Dafydd
**Dirprwy Archdderwydd:** Y Prifardd Geraint Llifon
**Cyn-Archdderwyddon:** Y Prifeirdd: Christine, Jim Parc Nest, Meirion, John Gwilym
**Cofiadur:** Y Prifardd Christine
**Arwyddfardd:** Dyfrig ab Ifor
**Trysorydd:** Eric Wern Fawr
**Ysgrifennydd Aelodaeth:** Huw Tomos
**Ceidwad y Cledd:** Robin o Fôn
**Trefnydd yr Arholiadau:** Gwyn o Arfon
**Trefnydd Cerddoriaeth:** Y Priflenor Cefin
**Arolygydd y Gwisgoedd:** Ela Cerrigellgwm
**Swyddog Cysylltiadau Celtaidd:** Hywel

Cadeirio'r Prifardd Myrddin ap Dafydd gan y diweddar Gyn-Archdderwydd Robyn Llŷn Eisteddfod Genedlaethol Sir Benfro 2002

## Bwrdd yr Orsedd ar gyfer 2019-20

Y swyddogion uchod ynghyd â'r aelodau a ganlyn:
Y Priflenor Annes, Y Prifardd Awen Gwyrfai, Dorothy Bwlch-y-Ffordd, Y Prifardd Elinor Gwynn, Y Priflenor Eurig, Gwenda Pen-bont, Gwyn Treferthyr, Y Prifardd Hywel Cynog, Y Prifardd Rhys Iorwerth, Syr Wynff ap Concord y Bos a'r Prifardd Tafwysfardd.

## Tymor yr Archderwydd, Swyddogion yr Orsedd ac aelodau'r Bwrdda'i baneli

Tair blynedd – neu dair eisteddfod – yw hyd arferol tymor yr Archderwydd, a hefyd tymor Swyddogion yr Orsedd ac aelodau'r Bwrdd a'i baneli. Argymhelliad unfrydol y Bwrdd yn wyneb y gohirio a orfodwyd ar drefniadau a seremonïau eleni yn sgil Cofid -19 yw ychwanegu blwyddyn at hyd y tymor arferol ym mhob achos er mwyn parchu egwyddor y 'tair eisteddfod', a gofynnir i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol gadarnhau hyn yn ffurfiol.

*Y Cyn-Archdderwydd Christine*
*Cofiadur*

***Bu farw'r Cyn-Archdderwydd Robin Llŷn ar 12 Awst 2019, yn 89 oed***

# Colli cyfaill triw i'r Brifwyl

Yn Llŷn, bu'n ganllaw i'w heniaith, – rhoes lais,
Rhoes le i'w gorymdaith;
Yn ei ardal, drwy'r dalaith:
Robyn Llŷn, cyfaill ei iaith.

*Yr Archdderwydd Myrddin ap Dafydd*

Robyn Llŷn oedd y Priflenor cyntaf i'w ethol yn Arch-dderwydd, a gwasanaethodd yn y rôl honno am y cyfnod 2002–05. Ef hefyd oedd Swyddog Cyfraith yr Orsedd, a bu ei arbenigedd yn y maes hwnnw'n gaffaeliad mawr i ni wrth ymdrin â sawl mater dadleuol dros y blynyddoedd. Roedd ei feddwl yn graff ac yn finiog, a'i gyngor yn werth ei gael – er y gallai fod yn ddigon direidus a drygionus hefyd ar brydiau!

Roedd gan Robyn allu ardderchog i drin geiriau, ac roedd yn awdur llond silff o gyfrolau ym maes y gyfraith, cyfiawnder a chenedlaetholdeb yn fwyaf arbennig, a bydd ei waith geiriadura yn gofeb arhosol iddo. Roedd yn barod ei farn bob amser, ac am flynyddoedd gohebai â golygyddion ein papurau newydd ar bynciau llosg y dydd.

Roedd Robyn yn gymeriad lliwgar a ymhyfrydai ym mhob agwedd ar weithgareddau'r Orsedd, ond yn arbennig ei seremonïaeth, a gwelwyd ei golli'n arw ar lwyfan Eisteddfod Sir Conwy y llynedd. Wrth estyn ein cydymdeimlad dwysaf at ei deulu, rydm yn cofio am un a wnaeth gyfraniad unigryw i lenyddiaeth Gymraeg a byd y gyfraith yma yng Nghymru, am gyfaill triw i'r Eisteddfod Genedlaethol ac am un a osododd ei farc ei hun ar yr Orsedd a'i seremonïau.

## ADRODDIAD TREFNYDD YR ARHOLIADAU 2020

Erbyn Dydd Gŵyl Dewi, roedd naw ymgeisydd wedi cofrestru i nodi eu bwriad i sefyll yr arholiadau eleni, gan gwmpasu'r meysydd astudiaeth a ganlyn:

- Arholiad Cyntaf Cyfansawdd: Barddoniaeth, Iaith, Rhyddiaith (chwe ymgeisydd)
- Arholiad Iaith 2 (chwe ymgeisydd)
- Arholiad Llenyddiaeth 2 (dau ymgeisydd)

Gwnaed y trefniadau angenrheidiol – trwy gydweithrediad parod arferol Nan Lloyd Williams (*Nan Llwyd*) – i gynnal yr arholiadau ar y Sadwrn olaf yn Ebrill yn Eglwys Dewi Sant, Aberystwyth. Cysylltwyd â'r arholwyr perthnasol i ofyn am bapurau arholiad. Ac yna ... daeth gwaharddiad ar deithio, anogwyd pawb ohonom i gadw pellter cymdeithasol, a bu'n rhaid i ni i gyd ymgodymu â chyfnod y 'Cloi Mawr' wrth i Covid-19 ledu ar draws y wlad. O ganlyniad, nid oedd unrhyw ddewis ond gohirio'r arholiadau am flwyddyn.

Er tegwch â'r ymgeiswyr, cysylltwyd â phob un ohonynt cyn diwedd Mawrth i'w hysbysu na chynhelid yr arholiadau oherwydd yr amgylchiadau anarferol eleni – ond gan roi sicrwydd iddynt na fyddai unrhyw newid yng ngofynion y *Maes Astudiaeth* ar gyfer arholiadau 2021, serch bod y *Maes Astudiaeth* cyfredol i fod i ddod i ben gydag arholiadau eleni. Felly, bydd *Maes Astudiaeth 2018-2019-2020* yn cael ail wynt am un flwyddyn arall!

Mawr hyderaf y bydd Covid-19 wedi cilio o'r tir erbyn diwedd Ebrill nesaf fel bod modd i ni gynnal yr arholiadau bryd hynny, ac y bydd y naw ymgeisydd a gofrestrodd ar gyfer yr arholiadau eleni – ynghyd ag eraill, gobeithio – yn llwyddo i ennill aelodaeth o'r Orsedd trwy ddilyn y llwybr hwn yn 2021.

*Gwyn o Arfon, Trefnydd yr Arholiadau*

## ADRODDIAD YR ARWYDDFARDD 2020

Mae hwn yn adroddiad tipyn yn wahanol i'r un arferol, gan nad ydw i wedi bod yn rhan o unrhyw drefniant Gorseddol yn ymwneud â'r Ŵyl yn Nhregaron na'r Cyhoeddi yn Nhremadog eleni! Fel rheol wrth baratoi'r datganiad yma byddwn wedi bod wrthi'n ddyddiol ers mis Mai yn derbyn amlenni drwy'r post a chofnodi eu cynnwys, gwirio archebion ar lein, bancio taliadau a chysylltu â datgeinwyr pob seremoni i gyflwyno sgript eu symudiadau iddynt. Mae'r tawelwch wedi bod yn fyddarol!

Y cyfan y gallaf gyfeirio ato felly yw llwyddiant seremonïau Eisteddfod Sir Conwy yn Llanrwst, a'r Diwrnod Cymdeithasol a gynhaliwyd ym Mlaenau Ffestiniog. Mae adroddiad am yr ymweliad cymdeithasol eisoes wedi ymddangos ar wefan yr Orsedd, ac mae wedi ei gynnwys eto yn yr adroddiad hwn ar d. 10, felly wna i ond cyfeirio ato gan ddiolch i bawb fu'n gysylltiedig â'r ymdrech i greu diwrnod llwyddiannus a chofiadwy eto.

O ran yr Ŵyl ei hun, er gwaethaf y newidiadau a orfodwyd arnom oherwydd y lleoliad â'r tywydd ar y penwythnos olaf, credaf inni lwyddo i gael Eisteddfod gofiadwy. Hyfryd oedd cael croesawu Archdderwydd newydd i'w swydd a hynny yn ei dref enedigol. Fe lithrodd Myrddin i'r tresi Archdderwyddol yn rhwydd, a diolch iddo am y syniad o gyflwyno telynau teires i'r seremoni Mercher – hynny yn hen dref bwysig yn eu hanes.

Mae'r un hen gŵyn flynyddol gen i wrth gwrs, sef presenoldeb yn y seremonïau! Yn 2019 methodd bron i 23% o'r aelodau a archebodd wisg ymbresenoli ar gyfer y seremonïau. Dyna gyfanswm o 255 gwisg a baratowyd yn ddiangen gan Arolygydd y Gwisgoedd a'i thîm arbennig o brysur. Mae hyn yn wastraff ar amser ac adnoddau prin. Rwy'n derbyn fod sawl un wedi fy hysbysu ymlaen llaw na allent fod yn bresennol, ac efallai bod tamprwydd dydd Gwener wedi torri ambell galon, ond nid da lle gellir gwell. Felly dyma'r apêl flynyddol – os gwelwch yn dda, peidiwch ag archebu gwisg os nad ydych yn ffyddiog y gellwch fod yn bresennol.

Diolch i bawb am bob cymorth.

*Dyfrig ab Ifor, Arwyddfardd*

## ADRODDIAD AROLYGYDD Y GWISGOEDD 2020

### Cyhoeddi Eisteddfod Sir Ceredigion

Roedd hi'n dipyn o ras cael pawb yn barod erbyn yr Orymdaith gan fod y Cyhoeddi yn y bore y tro hwn, i gyd-fynd â threfniadau penwythnos Gŵyl Fawr Aberteifi. Gorseddwyd y Prifardd Myrddin ap Dafydd yn Arch-dderwydd mewn seremoni arbennig, a chroeso Ceredigion yn amlwg iawn. Roeddwn wedi addasu gwisg yr Archdderwydd iddo, a gwneud gwisg newydd i'r Cyn-Archdderwydd Geraint Llifon. Cafwyd cydweithio hwylus iawn â merched Ceredigion, dan arweiniad Lisa ac Ann.

**Edrych yn ôl ar Eisteddfod Sir Conwy 2019**

Braf iawn oedd bod yr Eisteddfod o fewn 15 milltir i'm cartref y tro hwn, ac aeth popeth yn hwylus yn y seremonïau. Tywydd braf bore Llun a thyrfa fawr wedi ymgynnull i wylio'r urddo. Y tywydd ddim cystal bore Gwener, a bu'n rhaid defnyddio'r Neuadd Ddawns, ond trwy ddefnyddio uchel-seinydd a chadw'r drysau'n agored llwyddwyd i rannu'r profiad â'r dyrfa oedd wedi ymgasglu y tu allan. Cafwyd teilyngdod ym mhob un o'r prif seremonïau, a chynhesrwydd y gynulleidfa'n ychwanegu at y naws yn y Pafiliwn bob tro.

Yn anffodus mae'r drefn archebu gwisgoedd yn dal i beri peth dryswch ... ond dyfal donc! Rwyf wed gwneud 30 o wisgoedd newydd, llaesach erbyn hyn. Mae'r lliw glas ychydig yn dywyllach, ond nid oedd modd cael

cyfatebiaeth berffaith. Roedd cael aelodau i'r pwyllgor lletygarwch (sy'n cynorthwyo gyda'r gwisgoedd) yn araf erbyn y Cyhoeddi yn 2018, ond erbyn yr Eisteddfod roedd cynifer eisiau helpu bu'n rhaid troi rhai i ffwrdd! Erbyn diwedd yr wythnos roedd y rhan fwyaf yn awyddus i helpu yn Nhregaron hefyd, ac yn cynnig trefnu bws i ddod acw! Roedd hi'n wythnos hwyliog, a llawer o ddiolch i Menna am drefnu'r holl gefnogaeth.

Bydd dau newid yn y ddarpariaeth erbyn Eisteddfod Ceredigion. Ni fydd Golchdy'r Fferi yn defnyddio gorchuddion plastig un-defnydd, felly bydd rhaid edrych am ddarpariaeth wahanol. Hefyd, rydym bellach wedi prynu cyflenwad o flodau ffug o ansawdd uchel ar gyfer pwysïau a phenwisgoedd plant y ddawns, er mwyn osgoi problemau alergeddau at y dyfodol.

*Ela Cerrigellgwm*
*Arolygydd y Gwisgoedd*

## ADRODDIAD SWYDDOG Y CYSYLLTIADAU CELTAIDD 2020

Daeth cynrychiolwyr o'r gwledydd Celtaidd i gyd a hefyd Patagonia i Ddyffryn Conwy fis Awst diwethaf i fwynhau'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst. Roedd y rhai oedd yn dymuno cael llety yn aros yng ngwesty'r Royal Oak ym Metws-y-coed gan fanteisio ar y gwasanaeth bysus wennol i fynd yn ôl ac ymlaen i'r Maes. Diolch i Carys yn swyddfa Caerdydd am sicrhau lle iddynt yno. Mae'n dda dros ben bod ein ffrindiau Celtaidd yn cael aros mewn lleoliad braf a hwylus, ac yn enwedig lle mae nifer o eisteddfodwyr eraill yn mwynhau. Roeddent i gyd yn canmol y trefniant hwn yn fawr. Cafwyd cyfarfod byrfyfyr iddynt bnawn Sul ynghyd â the Cymreig syml cyn mynd ar daith dywys o gwmpas y Maes er mwyn i bawb ymgyfarwyddo. Roedd pawb yn bresennol yn y seremonïau a hefyd yn y swper croeso lle cawsant gyfle i gymdeithasu â'r Arch-dderwydd. Dychwelodd y rhan fwyaf ohonynt fore Iau ond arhosodd cynrychiolwyr Cernyw ac Ynys Manaw ymlaen a mwynhau rhagor o'r Eisteddfod.

Ceir adroddiadau gan y Gorseddogion hynny a fu'n ymweliad â'r gwyliau Celtaidd eraill ar ein rhan yn ystod 2019 isod, a hefyd adroddiad am ymgyrch personol yr Archdderwydd i gadarnhau'r cysylltiadau rhwng Cymru a gwledydd eraill. Oherwydd cyfyngiadau Covid-19, mae holl drefn ymweliadau 2020 wedi eu gohirio am y tro.

*Hywel*
*Swyddog y Cysylltiadau Celtaidd*

**Ymweliad ag Yn Chruinnaght 2019**

Er i'r gwynt fy chwythu'n ddigon didrugaredd o'r Eil o'Man am adref, wnaeth hynny amharu dim ar bleser f'ymweliad cyntaf erioed â'r ynys, diolch i'r Orsedd. Roedd Paul Salmon, aelod gweithgar o'r tîm bychan sy'n trefnu Yn Chruinnaght yn flynyddol, yn ein disgwyl yn y porthladd, ac i wneud yn gwbl siŵr ein bod yn gwybod yn union pwy ydoedd, roedd yn arddangos baner anferth wedi'i llunio o faneri'r gwledydd Celtaidd i gyd! Er mai ond yn gymharol ddiweddar yr ymgartrefodd Paul a'i deulu ar yr Ynys mae ei wreiddiau'n ddwfn yno gan i'w fam gael ei geni a'i magu yno. Ar ôl dilyn gyrfa fel peiriannydd sifil mae bellach yn gweithio fel Swyddog Prosiect yn yr Amgueddfa yn Douglas.

Yn Peel, tref fechan glan môr rhyw hanner awr o siwrnai o Douglas –a fersiwn gryno o Aberystwyth! – y cynhaliwyd Yn Cruinnaght eleni. Does dim cystadlu fel sydd yn yr Eisteddfod ond yn hytrach mae'r pwyslais ar sesiynau cerddoriaeth werin mewn bwytai a thafarndai lleol, ceilis amrywiol, arddangosiadau dawnsio awyr-agored a chyngherddau cerddoriaeth werin ychydig yn fwy ffurfiol yn theatr y Centenary Centre gyda'r nos. Roedd naws ymlaciol, cartrefol i'r cyfan.

Ar ddiwrnod cyntaf ein hymweliad cawsom ein hebrwng o gwmpas gwahanol fannau o ddiddordeb ar yr Ynys. Uchafbwynt y daith i mi oedd ymweliad â'r *Bunscoill Ghaelgagh*, ysgol gynradd wedi'i lleoli ym mhentref St John's, lle mae'r addysg yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Fanaweg. Awr yn unig o Saesneg a ddysgir yno yr wythnos! Gwych oedd cael ar ddeall fod rhieni'r plant yn cael eu denu i ymddiddori yn yr iaith fwyfwy hefyd.

Un o'r athrawon yno yw Annie Kissack, Prif Fardd Manaw eleni; gwraig egnïol, frwd a'r brwdfrydedd hwnnw'n amlwg wedi cyffwrdd yn ddwfn yn y plant sydd dan ei gofal. Tra yno, cawsom berfformiad *impromptu* gan rai o'r disgyblion hŷn o sioe a seiliwyd ar hanes y cawr Mannahan, ac a berfformiwyd ganddynt yn gynharach yn y tymor. Yn ddiweddarach y noson honno, cymerais ran mewn trafodaeth am gyhoeddi yn yr ieithoedd lleiafrifol yn y Guild Room. Roedd Annie Kissack yno ac wedi dod â llyfryn o gerddi a gyfansoddwyd gan blant ei dosbarth hi yn ystod y bythefnos flaenorol. Cymysgedd o rai drwy gyfrwng y Fanaweg a'r Saesneg oedden nhw, a difyr –a chyffrous – tu hwnt i mi, oedd clywed gan Annie sut roedd lleisiau'r plant yn amrywio gan ddibynnu ar ba iaith a ddefnyddient. Lle roedd y cerddi Saesneg yn tueddu i ddilyn patrwm a delweddau disgwyliedig roedd y cerddi Manaweg yn llawer mwy gwreiddiol a'r lleisiau'n fwy ffres, meddai. Gan nad oes traddodiad hir o lenyddiaeth a barddoniaeth yn y Fanaweg ysgrifenedig, ac nad yw'r iaith ysgrifenedig wedi'i safoni'n gwbl ffurfiol, cred Annie fod y disgyblion yn mwynhau'r rhyddid y mae hynny'n ei roi iddynt. Gwych oedd ei chlywed yn dyfynnu o un gerdd a ddisgrifiai geiriau'r Fanaweg yn 'dawnsio' ar y tudalen. Fe'm gwahoddwyd i ddarllen un neu ddwy o'm cerddi innau yn ystod y sesiwn.

Roedd gennym ryddid i wneud fel y mynnem ar y dydd Sadwrn ac fe wnaethom ni fwynhau ymweliadau ag arddangosfa ddawnsio, cyngerdd delynau yn yr Eglwys Gadeiriol a ffair grefftau gan grefftwyr lleol. Daeth y diwrnod i ben gyda gig gan grŵp gwerin lleol ac un arall o Iwerddon yn y Centenary Centre.

Hedfanodd yr amser. Diolch i'r Orsedd am brofiad difyr a chadarnhaol iawn.

*Y Priflenor Annes*

## Ymweld â *Gorsedd Digor*, 21 Gorffennaf 2019

Bûm yn cynrychioli'r Orsedd yn seremoni *Gorsedd Digor* yn Llydaw, mewn cylch cerrig y tu allan i dref Brasparts. Y noson gynt, roedd gwledd wedi'i chynnal ar fy nghyfer i a Bardd Mawr Cernyw, a oedd hefyd yn bresennol. Wedi'r wledd darllenais ambell gerdd gynganeddol i'r cwmni ac fe'n diddanwyd ninnau yn ein tro gan ganu, dawnsio a cherddoriaeth bibau Lydewig.

Roedd seremoni'r Orsedd ei hun ar y bore Sul yn llai o beth na'n seremonïau ni; rhyw bump ar hugain yn cymryd rhan, ond mae'n siŵr bod rhyw gant go dda yn y gynulleidfa o'n hamgylch. Roedd y cylch cerrig yn un gweddol fychan, mewn llannerch lethrog a gwelltog yr oedd yn rhaid ymwthio trwy ddrain a mieri i gyrraedd ati. Ond roedd y pwys amlwg a roddent ar y cysylltiad â byd natur yn eithaf trawiadol.

Un o uchafbwyntiau'r seremoni i mi oedd Derwydd Mawr Llydaw (*Ar Druizh Meur*) yn cyflwyno medal i deulu ifanc sydd yng nghanol brwydr â Llywodraeth Ffrainc ynghylch eu hawl i enwi eu mab â sillafiad Llydewig (gweithred 'derfysgol', yn ôl awdurdodau Ffrainc). Ac roedd anerchiad amserol a chroyw'r Derwydd Mawr ei hun yn werth ei glywed: areithio tanbaid dros ein hawl fel Celtiaid i'n hunaniaeth, gydag un cyfeiriad dilornus at Brexit yn denu bonllefau o gymeradwyaeth gan y dorf.

Drwy gydol y seremoni (a aeth yn ei blaen am dros awr a hanner go dda) roeddwn i a Bardd Mawr Cernyw yn sefyll ar y Maen Llog o boptu'r Derwydd Mawr. Ar ôl darllen dau gyfarchiad o'r sgript, cefais gyfle i ddweud gair ac fe soniais am bwysigrwydd atgyfnerthu'r cysylltiadau rhyngom fel dwy genedl. Rhoddwyd imi wedyn gleddyf deuddarn i'w ddal: cleddyf sy'n cynrychioli'r frawdoliaeth rhwng y Celtiaid a'i gilydd.

Ac yna uchafbwynt arall: ar ddiwedd y seremoni, agor poteli oer o *chouchenn*, a phawb yn ei dro yn yfed y medd o'r cyrn cyntefig. Ffordd dda i gloi pethau ar ôl awr a hanner ar y Maen Llog yn yr haul! Gwledd arall wedyn yn y neuadd bentref yn Brasparts, cyn dal y cwch fore trannoeth yn ôl mewn pryd i weld Boris Johnson yn cael ei urddo'n Brif Weinidog. Roeddwn yn difaru'n fawr nad arhosais yn hwy.

*Y Prifardd Rhys Iorwerth*

## Ymweld â *Gorsedh Kernow*, 6–8 Medi 2019

Cawsom drên digon hwylus ddechrau Medi o Gaerdydd i Bennsans, a'n codi oddi yno gan Peter a Rael i Lannust ar benrhyn eithaf Cernyw. Tref gartrefol iawn yw honno, pum tafarn a sgwâr yn ei flodau, clamp o gapel Wesle ac eglwys hardd iawn, a'r faner ddu a gwyn ar ei phen. Cawsom groeso hael, a hynny yn Gymraeg yn aml, ynghyd â map a geiriadur Cernyweg yr un yn rhoddion.

Cynhaliwyd *ceilidh* ar y nos Wener, a seremoni *Gorsedh Kernow* ddydd Sadwrn yn y *Plen an Gwari* gerllaw – cylch agored lle byddai dramâu crefyddol yn cael eu perfformio gynt – a thorf sylweddol yn gwylio. Yn ei hanerchiad, nododd y Bardd Mawr, Liz Carne, fod y Cernywiaid yn grŵp lleiafrifol yn dylid ei amddiffyn, ac fe'n rhybuddiodd i gyd rhag drwg-effeithiau Brexit ar y Gernyweg ac ar wahanol gymunedau Cernyw. Cafwyd cymeradwyaeth fawr wedyn wrth nodi bod Cernyw'n wlad ar wahân i Loegr.

Cawsom eistedd ar y llwyfan gyda'r Bardd Mawr, y dirprwy a'r cynrychiolydd o Lydaw, a chael golwg ddiguro ar bob dim, yn cynnwys derbyn rhes o aelodau newydd i'r *Orsedh* – a da gweld yr enwog Gwenno Saunders yn eu plith. Roedd Iolo ym mhob man, wrth reswm, ond yn fwyaf arbennig yn y pwyslais ar gariad a heddwch. Eto i gyd, roedd defod trosglwyddo'r cledd deuddarn i'n dwylo ni'r Cymry yn ein taro ni'n dau'n chwithig, braidd. Roedd cledd Arthur yno hefyd, ac fe glywyd ei enw fwy nag unwaith, yn fwyaf trawiadol wrth ddatgan yn herfeiddiol ei fod yn fyw o hyd. Mae safle posib ei lys, Celliwig, mewn man o'r enw Castle-an-Dinas, i'r gogledd o Bennsans.

Cawsom hefyd gyfle i annerch yr *Orsedh*, a hynny ar y cyd. Aethom dros y caeau'r bore hwnnw i Borth Nanven, sy'n enwog am ei draeth llond cerrig crynion o bob maint. Cymaint yw hynodrwydd y cerrig llyfnion – wyau deinosor, ebe rhai – mae nodyn ar hysbysfwrdd uwch y traeth yn gwahardd eu dwyn oddi yno. Dyma sôn wrth annerch y dorf ein bod ni wedi ufuddhau i'r drefn honno, ond y byddem yn sicr o ddychwelyd i Gymru ag ysbryd o frawdgarwch lond ein dwylo.

Rhybudd i bwy bynnag a fydd yn mynd i Gernyw'r tro nesaf (i Borthbud, yn ôl pob tebyg): peidied neb â cholli te'r prynhawn! Roedden ni wedi cymryd yn ganiataol mai rhyw de bychan oedd hwn, paned fach ar ein traed – felly i ffwrdd â ni o'r gwres i'r dafarn – ond daeth yn eglur drannoeth ei fod yn agosach peth at ginio ffurfiol. Er tegwch, ddwedodd neb wrthyn ni fod cymaint o bwys ar yr pwys o de a'r pasteiod. At hynny, fe dreulion ni ddwyawr gyfan yn ein gwisgoedd yn cenhadu yn llygad haul ar y sgwâr, ac yn egluro dirgel bethau'r Orsedd a'r awen i bobl chwilfrydig o bell ac agos. Canu gyda'r nos wedyn yng nghwmni annisgwyl criw o Grwydriaid Crwbin a chantorion tafarn lleol yn y Star.

Daethom â'r anerchiad i ben y prynhawn hyfryd hwnnw â thri englyn:

Ar ran yr Orsedd heddi – y deuwn
Ein dau gyda cherddi,
I dynhau ein dwy wlad ni
Mewn cwlwm yn y *ceilidh*.

Er pob storm a phob gormes – pob Tori,
Pob toriad a rhodres,
Dwedwn NA! a down ni'n nes,
Ni wahenir ein hanes.

*Meur ras bras* dau *Gembro* yw – hyn o gân,
A'r hen gylch, rhydd ydyw,
Maes cyrn grymusa' Cernyw,
Cae bach llawn *Kernewek Byw*.

*Y Priflenor Eurig a'r Prifardd Hywel Cynog*

**Ymweld â'r Mod yn Glasgow, Hydref 2019**

Cynhaliwyd y rhan fwyaf o weithgareddau'r Mod yn Neuadd Gyngerdd Frenhinol Yr Alban yng nghanol dinas Glasgow, adeilad sy'n ymdebygu i Ganolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd gyda'r brif neuadd yn dal bron i 2,000 ac yna nifer o neuaddau llai.

Cystadlu yw ffocws y gweithgareddau, a'r cyfan yn digwydd trwy'r Gaeleg gyda rhai negeseuon prin o'r llwyfan gan yr arweinydd yn y Saesneg. Amhosib i'r glust Gymraeg yw ceisio deall nemor ddim gan fod y Gaeleg, sy'n perthyn yn agos i'r Wyddeleg, mewn ffrwd wahanol i'r Gymraeg, y Gernyweg a'r Llydaweg. Fodd bynnag, hawdd oedd mwynhau'r canu digyfeiliant o alawon gwerin gan unigolion a chorau.

Ar y nos Fawrth, cynhaliwyd cyngerdd oedd yn cyflwyno ystod eang gyda chorau mawr a bach, partïon ac unigolion yn lleisiol ac yn offerynnol. Yr unig beth na welwyd oedd dawnsio. Fore Mercher bûm mewn cynhadledd i'r wasg lle y clywyd am y camau breision sy'n cael eu cymryd i ehangu'r ddarpariaeth o'r Gaeleg yn ysgolion Yr Alban a gofynnwyd am farn o Gymru.

Aeth llawer o weddill dydd Mercher ar anrhydeddu a gwobrwyo gwaith llenyddol o oedran ysgol gynradd i'r genhedlaeth hŷn. Roedd cryn bwyslais ar y gwobrwyo, a da hynny, gydag un yn cael ei henwi'n Fardd Yr Alban am y flwyddyn sef Sandy Macdonald Jones o Lundain ond sy'n ysgrifennu yn y Gaeleg ymysg ieithoedd eraill gan gynnwys y Gymraeg y mae yn ei dysgu ar hyn o bryd. Yna, ar y nos Fercher cynhaliwyd y fedal aur ar gyfer canu gwerin, cyn symud at y corau ddydd Iau gyda'r neuadd yn rhwydd lawn gydol y dydd.

Cefais groeso cynnes iawn gyda tocynnau braint i bob dim a rhaglen gynhwysfawr. Bûm yn aros mewn gwesty godidog ar draws y ffordd i'r Neuadd Gyngerdd – a phryd nos yn rhan o'r croeso! Roedd rhai cystadlaethau'n cael eu cynnal yn y gwesty yn ystod y dydd, a canu hwyliog gyda chyfeiliant yn y bar gyda'r hwyr. Cyfle arbennig i fwynhau, ymlacio ac i brofi cynhesrwydd yr Albanwyr.

*Hywel*

## Ymweliadau Ymgyrch yr Archdderwydd 2019

Mae'r ymgyrch hon yn beth personol gen i ac yn codi o hanes yr Orsedd fel y sefydliad cenedlaethol cyntaf i hyrwyddo ac amddiffyn Cymru a'r Gymraeg. Yn draddodiadol, mae'r Orsedd yn cynnwys holl feysydd diwylliannol a gwleidyddol y genedl, gyda'r pwyslais ar frawdgarwch, cydraddoldeb a rhyddid. Y cynllun sydd gen i yw ceisio ymweld â dwy wlad dramor y flwyddyn a chyflwyno darnau o waith celf i gofio am ddigwyddiad ac adeg hanesyddol sy'n uno Cymru a'r wlad honno. Rydw i wedi bod yn eithriadol o lwcus fod Anthony Evans, yr arlunydd o Gaerdydd, wedi gwirfoddoli i gyfrannu ei waith i'r ymgyrch. Y patrwm yw fy mod i'n sgwennu englyn i gofio ac Anthony wedyn yn creu poster o'r geiriau a darluniau a delweddau addas.

### Ymweliad â'r Gernika, Awst 2019

Bu'r ymweliad cyntaf â Gwlad y Basg. Cyflwynwyd celf i Amgueddfa Heddwch Gernika i gofio ymgyrch nifer o longau Cymreig wrth iddynt geisio – a llwyddo yn y diwedd – i dorri blocâd Franco ar y môr oedd yn rhwystro bwyd rhag cyrraedd Bilbao newynog yn 1937. Daeth y capteiniaid Cymreig yn fydenwog oherwydd eu dewrder a'u penderfyniad. Merch un o'r capteiniaid llwyddiannus oedd un o'r tramorwyr cyntaf i fod yn llygad-dyst i effeithiau cyflafan Gernika ac i ddatgelu hynny yn y wasg. Cafwyd gwasanaeth gwych Begotxu Olaizola, gwraig o Wlad y Basg sy'n rhugl ei Chymraeg i wasanaethu fel cyfieithydd ar yr achlysur a gynhaliwyd yn Gymraeg a Basgeg.

### Ymweliad â'r Oireachtas, Dulyn, Tachwedd 2019

Roedd yr ŵyl yn cael ei chynnal ar benwythnos arwyddocaol. Hwn oedd y penwythnos Brexit y breuddwydiodd rhai o aelodau seneddol Llundain amdano ac roedd creu ffin galed ym Môr Iwerddon yn y penawdau cyn inni groesi hwnnw. Er mwyn cyfleu cynnal y ddolen rhwng pobl Cymru a phobl Iwerddon, roedd yr ymweliad yn ffordd o fynegi ein diolchgarwch am y ffafr fawr a wnaeth y Gwyddelod â ni rhwng 1927 ac 1929.




Yn yr 1920au, sefydlwyd gwasanaeth radio'r BBC. Erbyn 1926, roedd set radio gan un o bob wyth teulu yng Nghymru. Dechreuwyd gofyn am raglenni Cymraeg ond negyddol a gwawdlyd oedd ateb y BBC. Camodd Llywodraeth Iwerddon Rydd i'r bwlch. Dan ysbrydoliaeth Ernest Blythe, gweinidog cyllid yn llywodraeth de Valera – a gŵr oedd wedi dysgu Cymraeg drwy'i gysylltiad â'r Capel Cymraeg yn Nulyn – darlledwyd rhaglen Gymraeg o ganu bob nos Wener cyntaf y mis am flwyddyn gron. Dilynwyd hynny gan gyfres o wersi dysgu Cymraeg ar y radio. Dyma'r corff mwyaf o ddarlledu cyson cynnar Cymraeg.

Creodd Anthony Evans waith celf yn darlunio hynny. Trefnwyd bod y gwaith yn cael ei gyflwyno'n fyw ar raglen y Radio Gwyddeleg ar y pnawn Gwener, a hynny i Niall Comar, llywydd Conradh na Gaelige. Roeddwn i'n siarad Cymraeg ac un arall o swyddogion y mudiad, Cuan Ó Seiredáin, yn cyfieithu i'r Wyddeleg. I gloi'r eitem, canodd deugain o aelodau o Gôr yr Heli 'Hwrê i Gei Caernarfon' gan godi'r to. Gan fod Ifor ap Glyn (*Tasfwysfardd*) yno yn paratoi rhaglen ar hyn i Radio Cymru, roedd hi'n braf manteisio ar ei Wyddeleg defnyddiol ar sawl achlysur yn ystod yr ymweliad.

*Yr Archdderwydd Myrddin ap Dafydd*

# CYFARFOD CYMDEITHASOL YR ORSEDD 2019

**I Grombil y Mynydd**

Ceudyllau Llechwedd, Blaenau Ffestiniog, oedd cyrchfan diwrnod cymdeithasol diweddaraf yr Orsedd, ddydd Sadwrn, 21 Medi 2019. Daeth bron iawn i ddeugain o Orseddogion a'u gwesteion ar y daith, a chawsom ddiwrnod arbennig – nid lleiaf gan fod yr haul yn tywynnu drwy'r dydd a dim smotyn o law!

Daethom ynghyd ar gyfer coffi am 10.30 o'r gloch yng Ngwesty'r Seren, Llan Ffestiniog – canolfan ddelfrydol os ydych am deithio o gwmpas yr ardal honno. Wedi gair o groeso gan y Cofiadur, y Cyn-Archdderwydd Christine, cawsom ddarlith gynhwysfawr a difyr am hanes chwareli'r ardal gan yr hanesydd lleol Steffan ab Owain. Bu Steffan yn gweithio yn y chwarel am gyfnod cyn iddo ganolbwyntio ar yrfa fel hanesydd, archifydd ac awdur nifer o lyfrau ar hanes lleol. Clywsom am y cynnydd mawr yn nifer y chwareli yn yr ardal yn ystod y 19eg ganrif. Yn eu hanterth yn yr 1880au roedd chwareli 'Stiniog yn cyflogi rhyw 4,000 o weithwyr, gyda gweithlu o ryw 1,400 yn Chwarel Oakeley, ac oddeutu 600 o ddynion yn Chwarel Llechwedd. Cawsom wybod sut yr oedd y gwahanol chwareli yn cloddio am y llechi, e.e. tyllu'n ddwfn yn Nyffryn Nantlle a gyrru 'lefelau' yn Chwareli 'Stiniog. Amlinellodd Steffan y broses gyda chymorth ei luniau arbennig, gan ddangos sut roedd y graig a gloddiwyd o'r mynydd yn cael ei pharatoi i fod yn gynnyrch derbyniol, e.e. llechi to. Yn ystod ei sgwrs clywsom sawl hanes doniol am y gweithwyr .

Cawsom ginio ardderchog yng Ngwesty'r Seren cyn mynd ymlaen i Geudyllau Llechwedd yn y prynhawn. Aeth 35 ohonom i lawr i'r seithfed o'r 16 o lefelau sydd yn y chwarel. Er ei bod yn gynnes tu allan (20°C / 68°F) roedd yr awyrgylch yn nyfnderoedd y mynydd yn llaith ac oer (10°C / 50°F), ac felly y mae hi yno drwy'r flwyddyn. Aethom o siambr i siambr gan synnu at amodau gwaith y gweithwyr. Roedd pawb yn rhyfeddu fod y chwarelwyr yn gorfod gweithio am 12 awr y diwrnod, mewn tywyllwch dudew heb gymaint â golau cannwyll – a hynny am gyflog pitw iawn.

Tra oedd y rhan fwyaf ohonom yng nghrombil y mynydd, aeth pedair arall ar daith 'ysgytwol' yn lori'r *Quarry Explorer* i ben uchaf y chwarel. Ond er yr holl ysgwyd yr oedd yr olygfa o'r topiau'n werth ei gweld.

Diolch i Dyfrig am drefnu diwrnod mor ddiddorol ac addysgiadol unwaith eto. A da gen i fedru adrodd na chollwyd yr un aelod o'r Orsedd yng nghrombil y mynydd!

John Williams (*Gwydrin*)